Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Trawsgydymffurfio: creu lleiniau clustogi (GAEC 1) (2014)

Crynodeb o'r rheolau ar ddefnyddio lleiniau clustogi i ddiogelu dŵr wyneb rhag llygredd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 1 Rhagfyr 2014

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Rhagfyr 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-creu-lleiniau-clustogi-gaec-1-2014-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Diffiniad**

**Prif ofynion**

**Archwiliadau maes**

**Arferion da**

**Gwybodaeth pellach**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-creu-lleiniau-clustogi-gaec-1-2014-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Amcan y gofyniad hwn yw diogelu dŵr wyneb rhag cael ei lygru gan nitradau, ffosfforws, cynhyrchion diogelu planhigion a charthion pathogenig drwy greu lleiniau clustogi. Gall y rhain gael effaith ddifrifol ar iechyd ac amrywiaeth dyfroedd croyw a morol, gan gynnwys y planhigion a'r anifeiliaid sy'n byw ynddyn nhw. Mae gofyn cynnal y safon hon ar bob tir amaethyddol yng Nghymru.

# Diffiniad

- mae Dŵr Wyneb yn cynnwys dyfroedd arfordirol, aberoedd, camlesi, llynnoedd, pyllau dŵr a chyrsiau dŵr fel afonydd, nentydd a ffosydd sydd â dŵr ynddynt sy'n llifo'n rhydd. Mae'n cynnwys hefyd ffosydd sy'n sych am gyfnod a ffosydd cudd

# Prif ofynion

- peidiwch â gwasgaru gwrtaith anorganig na gwrtaith artiffisial o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb
- ni ddylech ddefnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb
- peidiwch â gwasgaru gwrtaith organig (gan gynnwys tail a slyri) o fewn 10 metr i ddŵr wyneb (6 metr os ydych chi'n defnyddio offer chwalu tail manwl, e.e. system chwistrellu, system 'traling shoe' neu far diferion)
- peidiwch â gwasgaru gwrtaith organig (gan gynnwys tail a slyri) o fewn 50 metr i dwll turio, pistyll a ffynnon
- peidiwch â mynd ati i wneud unrhyw borthi atodol o fewn 10 metr i ddŵr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-creu-lleiniau-clustogi-gaec-1-2014-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

wyneb

## Archwiliadau maes

- gofalu nad oes gwrtaith anorganig na gwrtaith organig (gan gynnwys tail a slyri) na phlaladdwyr wedi'u gwasgaru ar leiniau clustogi
- cadarnhau lleoliad unrhyw ddŵr wyneb a thyllau turio, pistyll a ffynhonnau ar eich tir eich hun a thir cyfagos cyn mynd ati i chwalu unrhyw wrtaith, cynhyrchion diogelu planhigion neu wneud unrhyw borthi atodol
- sicrhewch bod y safleoedd porthi atodol ddim o fewn 10 metr i'r dŵr wyneb

## Arferion da

- gofalwch fod lleiniau clustogi'n ddigon llydan i rwystro llif o'r tir a llygredd (gallai hynny olygu bod angen i'r llain glustogi fod yn lletach na'r gofyn)
- paratowch, diweddarwch a chadwch fap o'r daliad sy'n dangos lleoliad y dŵr wyneb a'r lleiniau clustogi fel y gallwch, os bydd angen, ei roi i gontractwyr neu edrych arno cyn mynd ati i chwalu unrhyw wrtaith neu blaladdwr neu fynd ati i wneud unrhyw borthi atodol

## Gwybodaeth pellach

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

- Llywodraeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

neu gweler y daflen **Trawsgydymffurfio: cysylltiadau defnyddiol (2024)** o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-creu-lleiniau-clustogi-gaec-1-2014-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

fewn y pecyn hwn.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-creu-lleiniau-clustogi-gaec-1-2014-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.